



## **POLISI RHEOLI MODDION**

### **1. Darparu Meddyginiaeth**

Dylid annog rhieni i ofyn i'w meddyg teulu a ydyw'n bosibl amseru'r dognau o feddyginiaeth i'w cymryd y tu allan i oriau arferol ysgol. Lle bynnag y bo modd, dylai rhieni disgyblion sydd angen meddyginiaeth yn ystod oriau ysgol, fynychu'r ysgol i ddarparu'r feddyginiaeth i'w plant.

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth corff llywodraethol yr ysgol, yn cytuno i ddarparu meddyginiaethau yn yr ysgol, mewn achosion lle mae disgybl ar feddyginiaeth tymor hir, pan fydd y disgybl yn ddibynnol ar feddyginiaeth rheolaidd neu mewn achos o argyfwng e.e. pigiad adrenalín mew nachos sioc anaffylacsis.

1.1 Mae unrhyw aelod o staff sy'n cytuno i ddarparu meddyginiaeth i ddisgyblion yn gwneud hynny ar sail wirfoddol.

1.2 Rhaid i staff sy'n gwirfoddoli i ddarparu meddyginiaeth, dderbyn cyfarwyddyd ysgrifenedig cywir gan y meddyg cyn cael caniatâd i roi meddyginiaeth i unrhyw ddisgybl.

1.3 Rhaid i ysgol dderbyn ffurflen wedi ei chwblhau gan rieni'r disgyblion yn gofyn am i'r ysgol ddarparu'r feddyginiaeth yn ystod oriau'r ysgol.

1.4 Mae'n angenrheidiol i'r pennaeth gytuno'n ffurfiol â'r cais cyn y rhoddir unrhyw feddyginiaeth.

1.5 Rhaid i staff sy'n rhoi meddyginiaeth i ddisgyblion gofnodi'r holl fanylion ar ffurflen 'Darparu Meddyginiaeth' yr ysgol.

1.6 Rhaid hysbysu'r rhiant o unrhyw sgîl-ffeithiau anffafriol a ddioddefodd y disgybl yn dilyn cymryd y feddyginiaeth (un ai yn syth, neu ar ddiwedd y diwrnod ysgol, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y sefyllfa).

1.7 Os yw'r disgybl yn gwrthod cymryd ei feddyginiaeth, ni ddylid ei orfodi i wneud hynny. Rhaid hysbysu'r rhieni os yw disgybl yn gwrthod cymryd meddyginiaeth. Os yw disgybl yn gwrthod meddyginiaeth mewn sefyllfa o argyfwng (e.e. pigiad adrenalín mewn achos o anaffylacsis), rhaid cael cymorth meddygol proffesiynol a hysbysu'r rhieni yn syth.

1.8 Dylai staff wneud eu gorau i sicrhau y caiff preifatrwydd a balchder y disgybl eu hamddiffyn, hyd yn oed mewn sefyllfa o argyfwng.

1.9 Os oes angen triniaeth bersonol neu ymyrgar ar ddisgybl, dylai dau aelod o staff fod yn bresennol; rhaid i un fod o'r un rhyw â'r disgybl.

## **2. Cadw Meddyginiaeth**

Lle bynnag y bo modd, dylid gofyn i rieni ddarparu'r ysgol gyda faint bynnag o feddyginiaeth sydd ei angen am y diwrnod ysgol yn unig, yn hytrach na dod â photel llawn ffisig neu botel llawn tabledi.

2.1 Ni fydd yr ysgol yn derbyn unrhyw feddyginiaeth nad yw yn ei chynhwysydd gwreiddiol.

2.2 Rhaid labelu pob meddyginiaeth yn eglur gydag enw a dosbarth y disgybl.

2.3 Heb law am anadlwyr asthma, meddyginiaethau sy' n rhaid eu cadw yn yr oergell, a meddyginiaethau a all fod yn angenrheidiol mewn argyfwng, rhaid cadw pob meddyginiaeth arall mewn cabinet/cynhwysydd wedi ei gloi.

2.4 Rhaid storio unrhyw feddyginiaeth sydd angen ei chadw yn yr oergell yn stafell yr athrawon. Rhaid cadw'r feddyginiaeth mewn cynhwysydd seliedig sydd wedi ei labelu'n eglur gydag enw a dosbarth y disgybl.

2.5 Caniateir i ddisgyblion y credir eu bod yn ddigon aeddfed i gymryd cyfrifoldeb am eu hanadlwr asthma ei gario gyda hwy cyn belled â bod cais ffurfiol wedi ei wneud gan y rhiant.

2.6 Yn ystod gweithgareddau oddi ar y safle, dylid cario unrhyw feddyginiaeth angenrheidiol gan yr aelod o staff sy'n gyfrifol am y gweithgaredd neu aelod o staff gyda hyfforddiant cymorth cyntaf. Dylai disgyblion all fod angen eu meddyginiaeth ar frys fod mewn grwp sy'n cael ei oruchwylio gan yr aelod o staff sy'n cario'r feddyginiaeth. Dylai disgyblion yr ystyrir eu bod yn ddigon cyfrifol i gymryd cyfrifoldeb am eu meddyginiaeth asthma gael caniatâd i'w chario gyda hwy cyn belled â bod cais ffurfiol wedi ei wneud gan y rhiant.

2.7 Ni ddylai staff fyth drosglwyddo meddyginiaeth o'i gynhwysydd gwreiddiol i gynhwysydd arall oni bai bod y cynhwysydd gwreiddiol wedi malu. Mewn achos o'r fath, dylid labelu'r cynhwysydd newydd yn eglur gyda'r holl wybodaeth a gaed ar label y cynhwysydd gwreiddiol. Rhaid hysbysu'r rhiant o unrhyw ddifrod i gynhwysyddion.

2.8 Ni ddylai staff yr ysgol waredu unrhyw feddyginiaeth sydd heb ei defnyddio. Dyma gyfrifoldeb y rhiant. Rhaid i'r rhiant gasglu unrhyw feddyginiaeth sydd heb ei defnyddio ar ddiwedd pob hanner tymor. Pe na bai'r rhieni yn gallu dod i'r ysgol, gallai'r nyrs ysgol gynorthwyo i gael gwared ag unrhyw feddyginiaeth heb ei defnyddio a adawyd yn yr ysgol. Os yw meddyginiaeth disgybl yn gorffen neu ei dyddiad yn terfynu, cyfrifoldeb y rhieni yw ei hailgyflenwi.

Dyddiad Mabwysiadu'r polisi yn wreiddiol:

Cadeirydd y Corff Llywodraethwyr:

Pennaeth:

Dyddiad Adolygu'r Polisi: